



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar
Cylch Meithrin yr Eifl
Y Ganolfan
Trefor
Gwynedd
LL54 5HP

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012

gan

Mr Eifion R Morgan

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfodddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin yr Eifl yn y neuadd gymunedol yn Nhrefor. Pentref bach gwledig yw Trefor ar arfordir Gogledd Cymru, rhyw 15 milltir i'r de orllewin o Gaernarfon. Mae'n Gylch cyfrwng Cymraeg a daw'r holl blant o gartrefi sydd â'r Gymraeg fel mamiaith. Ar hyn o bryd, mae 17 o blant ar y gofrestr, gyda 5 yn 3 oed ac ariennir 4 ohonynt.

Daw'r plant o gefndiroedd gwledig nodweddiadol Cymreig a daw neb o gartrefi sydd o dan anfantais yn economaidd. Daw neb o gymunedau ethnig lleiafrifol a nid oes un o'r plant wedi'u nodi ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, mae'r Cylch yn hapus i dderbyn plant pa beth bynnag bo'u cefndir neu allu.

Mae'r plant yn medru mynychu'r Cylch o 2½ oed a symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn y Medi sy'n dilyn eu penblywdd yn 3 oed. Gan amlaf, golyga hyn eu bod yn symud i'r ysgol gynradd yn y pentref.

Mae'r lleoliad yn cynnwys cyntedd bach yn y fynedfa sy'n arwain at y brif neuadd. Yn agor o'r brif ystafell ddysgu, mae toiledau gyda chyfleusterau ymolchi a chegin fach. Mae'r neuadd yn olau, ac wedi'i ei gwahanu'n briodol i ardaloedd o weithgareddau. Gan ei bod yn neuadd gymunedol, anfantais i'r Cylch yw bod rhaid clirio'r ardaloedd i ffwrdd ar ddiwedd pob sesiwn. Fodd bynnag, mae'n darparu digon o le i'r plant chwarae ar deganau mawr a beiciau tair olwyn.

Nid yw'r ardal tu allan yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd, ond dywed y Cylch bod cyllid nawr ar gael i ddatblygu ardal ddiogel i chwarae tu allan a fydd yn hygyrch o'r brif ystafell.

Mae'r Cylch ar agor yn ystod tymor yr ysgol o 9.15 y.b. tan 11.30 y.b. bob diwrnod o'r wythnos.

Dim ond yn ddiweddar mae'r Cylch wedi'i gofrestru gyda Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac yn aros am ymweliad ac adroddiad ganddynt. Arolygwyd y Cylch gan Estyn yn 2002. Fodd bynnag, mae llawer o newidiadau wedi digwydd ers hynny a dim ond ers Ionawr 2012 mae'r cyd-arweinwyr presennol wedi bod yn rhedeg y Cylch.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Prif arfarniad

Nodweddion da

- Mae'r cynllunio wedi'i gyfeirio'n dda at sicrhau cynnydd plant tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen.
- Mae'r ymarferwyr yn fodolau iaith dda ac yn defnyddio cwestiynu'n dda i ddatblygu iaith y plant.
- Caiff pob un o'r plant eu hasesu'n rheolaidd gan gofnodi'r arsylwadau.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant, gan gynnwys trefniadau diogelu plant wedi'i sefydlu'n dda.
- Mae gan y Cylch ethos rhagorol sy'n hollol gynhwysol a lle mae'r plant yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion.
- Mae'r ymddygiad yn dda iawn ac mae'r plant yn dysgu sut i gymryd cyfrifoldeb.
- Mae'r staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd ac mae synnwyr o bwrpas yn amlwg.

Nodweddion digonol

- Nid oes cyfleoedd i'r plant gael mynediad rhydd i'r tu allan.
- Diffyg cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau cyfrifiadurol.
- Nid yw canlyniadau'r asesu yn cael eu defnyddio'n ddigonol wrth gynllunio.
- Mae'r cysylltiadau â'r ysgol gynradd heb ddatblygu digon.

Rhagolygon gwella

Nodweddion da

- Mae'r ddwy ymarferydd wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd yn dda iawn yn yr amser byr maen nhw wedi bod yn gyfrifol ac mae hyn yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r staff wedi dilyn amrywiaeth dda o gyrsiau ac yn agored i newid.
- Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn fanwl ac mae'r meysydd i'w datblygu

wedi'u nodi.

- Mae cefnogaeth dda wedi'i rhoi gan athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a swyddog datblygu'r Mudiad Meithrin.

Argymhellion

Er mwyn parhau i wella, mae angen i'r Cylch:

A1 ddatblygu'r ardal tu allan er mwyn ymestyn y profiadau sydd ar gael i'r plant. *

A2 rhoi cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau cyfrifiadurol. *

A3 mireinio gweithdrefnau asesu er mwyn canolbwyntio ar ddatblygiad sgiliau'r plant er mwyn nodi'r camau nesaf yn y dysgu.

A4 defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r asesu yn y cynllunio fel bod tasgau yn cyfateb yn dda â chyfnod datblygiad a gallu'r plant.

A5 lle'n bosibl, datblygu cysylltiadau agosach gyda'r ysgol gynradd.

* Mae hyn yn cael ei gydnabod gan y Cylch yn ei hunanarfarniad.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y plant sy'n llwyddiannus o ran ennyn eu diddordeb. Mae'r profiadau dysgu wedi'u cynllunio'n dda i annog y plant i wneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r gweithgareddau yn arloesol ac yn cyfateb yn dda â diddordebau'r plant. Nodwedd dda a nodedig o'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio yw sut maen nhw'n annog y plant i ffurfio perthynas ac i fod yn oddefgar. Mae'r plant yn datblygu i fod yn unigolion hyderus sy'n medru dysgu'n annibynnol gyda dealltwriaeth arbennig o dda o'r byd o'u cwmpas.

Mae'r gweithgareddau'n canolbwyntio'n dda ar yr amgylchedd gwledig lle maen nhw'n byw ac yn cael eu hamlygu gan ymweliadau lleol, fel gweld sut y gofelir am gywion bach a sut i'w diogelu. Caiff y plant gyfleoedd hefyd i ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol. Nid yw'r cynllunio bob tro, fodd bynnag, yn manylu ar sut mae gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r plant yn cael eu datblygu'n gynyddol.

Mae'r cynllunio'n sicrhau bod cyfleoedd da ar gyfer y plant i ddatblygu medrau sylfaenol. Mae gan bob un fedrau gwrando da iawn, fel yn ystod amser stori. Mae'r plant yn ymateb yn gyflym i awgrymiadau ac yn ymateb yn fodlon i gwestiynau gan y staff. Mae ymatebion y plant yn dangos eu bod yn dechrau datblygu eu medrau meddwl. Maen nhw'n mwynhau cyfleoedd i edrych ar lyfrau a dal llyfrau'n gywir. Mae gan y Cylch gyflenwad da o lyfrau stori ac mae'r clustogau yn darparu ardal gyfforddus ar gyfer eistedd a darllen. Mae'r neuadd wedi'i rhannu'n dda i ardaloedd o weithgareddau ac mae gan bob ardal "aide memoir" i atgoffa staff o'r cyfleoedd mae pob ardal yn cynnig i ddatblygu medrau'r plant, yn enwedig eu datblygiad o iaith.

Cymraeg yw iaith y Cylch ac mae bron pob un o'r plant yn siarad yr iaith yn naturiol. Mae ffocws da ar ddatblygu iaith y plant drwy drafodaeth a chwestiynau sydd â chanolbwynt da. Mae pwyslais hefyd ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o rai o draddodiadau a dathliadau diwylliant Cymru.

Caiff cyfleoedd eu darparu hefyd i'r plant ddeall am fywyd yng ngwledydd eraill a chynnaladwyedd drwy dyfu planhigion.

Addysgu: Da

Mae gan ymarferwyr, drwy eu profiad o weithio gyda phlant ifanc, wybodaeth dda o ddatblygiad plant. Mae ganddynt hefyd ddealltwriaeth o ofynion y Cyfnod Sylfaen wrth ddysgu plant. Caiff pob un o'r plant eu gwerthfawrogi fel unigolion gan adnabod eu hanghenion a'u disgwiliadau penodol. Mae gan y staff ddisgwiliadau uchel o'r plant yn nhermau eu datblygiad personol a'u cyflawniad addysgol. Mae'r staff yn cefnogi'r plant yn weithredol yn eu gweithgareddau gan adael i'r plant, ar adegau, i weithio'n annibynnol. Mae'r plant yn cael eu herio'n briodol ac yn mwynhau'r gwahanol weithgareddau. Mae ethos gartrefol a chynnes yn amlwg yn y Cylch ac mae'r plant yn ymddwyn yn dda iawn. Ni arsylwyd unrhyw achosion yn ystod yr arolygiad lle roedd y staff wedi gorfod ymyrryd fel bod y plant yn cydweithio'n dda iawn gyda'i gilydd.

Mae'r staff yn fodolau iaith dda ac adlewyrchir hyn yn y rhyngweithio rhwng staff a phlant. Mae'r staff ychwanegol yn gwybod beth yw eu rolau ac yn gwneud cyfraniad effeithiol iawn tuag at ddysgu'r plant.

Caiff y plant eu hasesu'n rheolaidd gan nodi'r arsylwadau. Mae'r arsylwadau'n disgrifio cyflawniad y plant gyda'r dyddiad ac yn fesur da o gynnydd y plant. Ar y gorau, mae'r cofnodion yn dangos pa sgiliau mae'r plant wedi'u caffael ac mae hyn yn arfer dda. Fodd bynnag, mae'r arsylwadau yn tueddol o fod yn ddisgrifiadol ac nid ydynt yn nodi'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer plant unigol. Fel canlyniad, maen nhw'n llai defnyddiol wrth gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol sy'n cyfateb yn dda â gallu'r plant.

Mewn trafodaeth, dywed rhieni bod eu plant yn gwneud cynnydd da ac yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Fodd bynnag, byddai adrodd manylach o gyflawniad eu plant a gwybodaeth o'r camau nesaf yn eu dysgu yn eu galluogi i gefnogi'r dysgu i raddau mwy.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ddarapriaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae'r plant yn elwa o amgylchedd cynnes, cartrefol a chefnogol sy'n meithrin gwerthoedd fel tegwch, gonestrwydd a pharch at ei gilydd yn effeithiol. Mae'r gweithgareddau dyddiol yn helpu'r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac anghywir ac i ddatblygu dealltwriaeth o anghenion ei gilydd.

Mae ymweliadau â'r ardal leol yn datblygu chwilfrydedd y plant a'u synnwyr o ryfeddod am y byd o'u cwmpas a sut mae gofalu am anifeiliaid ifanc. Mae'r plant yn awyddus i helpu ei gilydd ac oedolion ac maen nhw'n dechrau cymryd cyfrifoldeb. Mae ymddygiad yn dda iawn ac nid oedd un achos yn ystod yr arolygiad pan oedd rhaid i staff ymyrryd. Caiff y plant gyfleoedd i gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau diwylliannol, fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae gan y Cylch bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y plant. Mae'r staff wedi'u dirprwyo â chyfrifoldeb dros ddelio ag amddiffyn plant a materion diogelwch. Caiff asesiad risg ei wneud yn ddyddiol a chyn unrhyw ymweliadau tu allan. Mae'r staff wedi elwa o hyfforddiant diweddar ac yn ymwybodol iawn o'r hyn i edrych amdano a sut i weithredu os oes angen. Mae'r gweithdrefnau yn adlewyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Mae'r staff yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd. Mae'r polisiau a'r gweithdrefnau ar waith petai unrhyw blentyn yn cael ei amau/ei hamau o fod ag anghenion addysgol ychwanegol. Mae'r Cylch yn ymwybodol o sut y gallai cynnwys gwasanaethau arbenigol ac yn cydnabod yr angen i gynnwys rhieni yn llawn. Er nad oes gan unrhyw blentyn unrhyw anghenion ychwanegol ar hyn o bryd, mae'r Cylch yn medru derbyn plant ag ADY a rhoi'r gefnogaeth anghenrheidiol.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Nodwedd rhagorol o'r Cylch yw'r awyrgylch cyfeillgar, cefnogol sy'n bodoli, sy'n golygu bod y plant yn ymgartrefu'n gyflym ac yn dangos mwynhad o fod yn y Cylch. Mae'r lleoliad yn hollol gynhwysol, yn cynnig hawl gyfartal i'r holl weithgareddau i bob plentyn a thrwy perswâd hamddenol yn sicrhau bod pob un plentyn yn cymryd rhan lawn.

Mae'r staff yn gwybod beth yw cefndir pob plentyn ac yn sensitif i'w hanghenion arbennig. Mae'r staff yn datblygu agweddau goddefgar y plant yn llwyddiannus ac maen nhw'n hollol rhydd o unrhyw ffurf o aflonyddwch. Ni welwyd unrhyw achosion yn ystod yr arolygiad o blant o dan straen neu yn derbyn triniaeth lai ffafriol. Mae gweithdrefnau cwyno yn bodoli ond nid oes angen wedi bod i'w defnyddio.

Mae gan y Cylch y staff briodol. Mae gan yr ymarferwyr gymwysterau a phrofiad addas. Mae'r adnoddau yn ddigonol ac yn addas i fynd i'r afael â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae ystod y gweithgareddau'n gweddu'n dda i anghenion y plant ac yn cynnal eu diddordeb. Mae'r adeiladau fodd bynnag, yn cael eu defnyddio gan fudiadau eraill yn y gymuned sy'n golygu gosod a chlirio offer i un ochr ar ôl pob sesiwn.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer y plant i chwarae tu allan ond mae cynlluniau ar waith a chyllid ar gael i ddatblygu ardal chwarae tu allan wrth ymyl y drysau ar ochr y neuadd. Bydd hyn yn darparu'r gweithgareddau chwarae ychwanegol a fydd yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y plant. Gwneir defnydd da o'r amgylchedd lleol i ymestyn profiadau'r plant.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r ddwy ymarferydd yn rhannu cyfrifoldebau arweinyddiaeth ers eu hapwyntio'n ddiweddar ac wedi cymryd eu rolau'n dda. Maen nhw'n deall eu rolau yn llawn ac yn cyd-weithio'n dda wrth gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae'r Cylch yn elwa o'u cyfeiriad clir, sy'n canlobwyntio'n dda ar ddarparu darpariaeth o ansawdd dda i'r holl blant. Mae synnwyr o bwrpas yn amlwg yn eu gwaith ac mae'r ddwy ymarferydd yn chwilio am ffyrdd o hyrwyddo a chynnal gwelliannau.

Mae ethos gadarnhaol yn amlwg o fewn y Cylch sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion a diddordebau'r plant. Mae'r plant yn cael eu rheoli'n dda ac yn mwynhau'r amgylchedd cynnes a chefnogol sy'n cael ei darparu ar eu cyfer. Mae cysylltiadau da wedi'u sefydlu gyda'r rhieni ac mae'r rhieni yn teimlo ei bod yn hawdd mynd at y staff a'u bod yn barod i helpu.

Mae'r pwyllgor rheoli yn deall eu rolau ac yn cefnogi gwaith y Cylch. Maen nhw'n cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod gwaith y Cylch, fel sy'n amlwg ym munudau'r cyfarfodydd. Maen nhw'n ymgymryd â gwerthuso staff.

Mae'r Cylch wedi cymryd sylw da o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a mentrau bwyta'n iach.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r Cylch wedi cynnal hunanarfarniad manwl a nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae'r meysydd i'w datblygu yn cyfeirio'n dda at ddarparu gwell ddarpariaeth i'r plant. Mae'r cynllunio o welliant fel hyn yn cynnwys graddfa amser realistig ynglŷn â chael y cyllid sydd ei angen. Mae'r cynnig o ddatblygu ardal chwarae tu allan i'r plant yn ychwanegiad da a gwerth chweil i'r cyfleusterau presennol. Lleoliad yr ardal chwarae sy'n cael ei chynnig yw union gerllaw allanfa'r neuadd. Bydd hyn yn galluogi'r plant i ddefnyddio'r ardal fel estyniad i'r amgylchedd mewnol. Yn ogystal, bydd yn galluogi'r Cylch i ddarparu ardaloedd ar gyfer edrych ar ôl pethau byw ynghyd â chefnogi datblygiad corfforol y plant.

Mae'r meysydd i'w gwella wedi'u blaenoriaethu ac mae'r holl ymarferwyr wedi'u cynnwys. Mae'r 2 ymarferydd wedi mynychu cyrsiau datblygiad proffesiynol perthnasol ac mae'r hyfforddiant wedi cael effaith dda ar gynnydd a lles y plant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r rhieni yn gefnogol iawn o'r Cylch ac yn gwerthfawrogi pa mor dda mae eu plant yn datblygu, yn bersonol ac yn addysgol, yn enwedig eu datblygiad iaith. Dywed rhieni, mewn trafodaeth, bod y staff ar gael bob amser i drafod cynnydd eu

plant a'u bod yn sensitif i anghenion y plant. Mae lefel dda o ymddiriedaeth rhwng rhieni a staff ac mae'r rhieni yn cael eu cynnwys bob amser os oes unrhwy faterion yn codi. Yn ogystal, mae'r rhieni ar gael i fynd gyda'r plant ar ymweliadau.

Mae'r rhieni yn derbyn llyfryn defnyddiol sydd â gwybodaeth am y Cylch pan mae'r plant yn dechrau yn y Cylch. Mae'r rhieni yn ymwybodol hefyd o bolisiau'r Cylch sydd ar gael iddynt. Mae'r rhieni yn llenwi ffurflen gofrestru sy'n gofnod o wybodaeth ddefnyddiol.

Mae cysylltiad gyda'r ysgol gynradd mae'r plant yn trosglwyddo iddi ond drwyddi draw, nid yw hyn wedi datblygu digon.

Mae'r cynllunio i ymestyn profiadau'r plant yn cael ei wneud ar y cyd ac yn cynnwys y gymuned leol. Yn ystod yr arolygiad, roedd ymweliad â lleoliad lleol sy'n bridio ieir yn werthfawr iawn. Gwelodd y plant y gwahanol gamau yn y datblygiad o'r wyau yn deor, cywion oedd wedi deor o dan lampau is-goch a'r cywion hŷn. Gwelodd y plant y gofal a'r sylw oedd angen i'r cywion ddatblygu.

Yn ogystal, mae'r Cylch wedi derbyn cefnogaeth dda iawn gan athrawes ymgynghori'r Awdurdod Lleol a swyddog datblygu'r Mudiad Meithrin. Mae cymorth a chynghor fel hyn wedi bod yn werthfawr wrth i'r Cylch ddatblygu ac mae'r ymarferwyr yn ddiolchgar am y cymorth maen nhw wedi ei dderbyn, Mae hyn yn bartneriaeth effeithol.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ddau aelod o staff parhaol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac mae perthynas dda yn bodoli rhyngddynt. Yn ystod yr arolygiad roedd aelod o staff o dan hyfforddiant yn bresennol a oedd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i waith y Cylch.

Caiff adnoddau eu defnyddio'n dda i ysgogi'r plant ac i gefnogi addysg y plant. Mae'r gofynion ar gyfer adnoddau i'r dyfodol wedi'u nodi a'u cynllunio. Caiff ymweliadau'r plant i'r gymuned eu cynllunio'n dda ac yn gymorth i ddatblygu eu sgiliau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ymweliadau yn cael eu trefnu'n ofalus ac yn cael eu hasesu ar gyfer peryglon posibl.

Drwyddi draw, mae'r Cylch wedi cynnig am gyllid yn llwyddiannus ac mae'r pwyllgor rheoli yn weithgar yn codi arian. Drwyddi draw, mae'r Cylch yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Roedd ymateb da iawn i'r holiadur i'r rhieni. Roedd pob un oedd wedi ymateb yn cytuno â'r cwestiynau canlynol oedd yn yr holiadur:

Rwy'n fodlon â'r lleoliad at ei gilydd.

Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn.

Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.

Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.

Mae'r addysgu yn dda.

Mae'r ymarferwyr yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt.

Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.

Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

Rwy'n teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.

Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol.

Mae ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

Roedd dros dri chwarter o'r rhieni yn cytuno'n gryf â'r datganiadau:

Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu'n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.

Mae'r addysgu yn dda.

Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.

Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae plant o bob oedran yn mwynhau eu hamser yn y Cylch ac yn dod i mewn yn y bore gyda synnwyr o disgwyliad. Maen nhw'n cymryd rhan yn llawn ac yn gyflym yn y gweithgareddau sy'n cael eu gosod ar eu cyfer gan chwarae'n hapus gyda'u ffrindiau. Nodwedd arbennig o dda yw'r hunan hyder sydd gan y plant sy'n eu galluogi i siarad ag ymwelydd am gyfnodau sylweddol o amser.

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol

Mr Eifion R Morgan	Arolygydd Cofnodol
--------------------	--------------------

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)